# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 2 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(26)v2

### 1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**NDM4838 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hwyluso creu swyddi drwy alluogi'r sector preifat i dyfu drwy:

a) canolbwyntio gwariant datblygu economaidd ar fesurau sy'n hybu twf busnes yn uniongyrchol;

b) adolygu rheoliadau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghymru; ac

c) cynorthwyo pobl yng Nghymru i ennill sgiliau fel bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn agored iddynt.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

ymateb i'r toriadau anghymesur i gyllideb cyfalaf Cymru gan Lywodraeth y DU drwy chwilio am ddulliau arloesol o godi arian cyfalaf, ac eithrio Mentrau Cyllid Preifat, i hwyluso prosiectau isadeiledd.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

ymgynghori â'r byd busnes a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi economi Cymru.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

sefydlu trefn ariannu drwy gynyddrannau treth fel ffordd o alluogi awdurdodau lleol i gyllido prosiectau adfywio economaidd mawr.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

canolbwyntio Twf Swyddi Cymru ar gyfleoedd hyfforddi yn y sector preifat.

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

sefydlu cronfa arloesedd i ysgogi datblygiad yr economi wybodaeth.

**4. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM4839 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant llaeth, sy'n mynd i'r afael â'r arferion masnachol annheg sy'n bodoli yn y gadwyn gyflenwi, ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer y canlynol:

a) contract gwaelodlin llaeth amrwd safonol;

b) cod ymarfer y gellir ei orfodi i sicrhau trafodion teg rhwng ffermwyr a chwmnïau llaeth; ac

c) cyhoeddi gwybodaeth dryloyw am ddosbarthiad elw a phrisiau cyfanwerthu.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu gwaith Llywodraeth y DU i gyflwyno Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd i fonitro ac i orfodi'r Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd.

Gellir gweld y Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd drwy glicio ar y linc isod:

http://www.competition-commission.gov.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/revised_gscop_order.pdf
(Saesneg yn unig)

**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**

**NDM4840 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio arian yr Undeb Ewropeaidd yn effeithiol er mwyn helpu i godi CMC cymharol rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd;

2. Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr y rhaglenni sgiliau lefel uwch ac arloesedd, megis y cynllun POWIS, at godi CMC;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun i olynu POWIS gyda nodau ac amcanion tebyg.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad cynhwysfawr o'i defnydd o arian yr UE yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn nodi â phryder y gostyngiad yn CMC Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o 66.8 y cant o gyfartaledd yr UE yn 2000 i 64.4 y cant (y ffigur diweddaraf sydd ar gael) yn 2008.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn cydnabod bod angen ymgysylltu’n ehangach â’r sector preifat i feithrin twf cynaliadwy yn CMC y rhanbarthau hyn.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn cydnabod bod rhaid i gynlluniau a ariannir gan yr UE symud i ffwrdd oddi wrth y ‘rheoliadau ticio blychau’ a chanolbwyntio ar ganlyniadau hyfyw.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4837 Christine Chapman (Cwm Cynon):**

Trefi ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2011